- yn parhau i fonitro'r ffordd y mae elusennau'n rheoli eu cronfeydd wrth gefn, gan weithredu i sicrhau bod yr elusennau'n cydymffurfio â'r rheoliadau cyfrifo ac adrodd a hyrwyddo arfer gorau;
- adolygu Arweiniad Gweithredol Cronfeydd Incwm wrth Gefn Elusennau (OG43) a dogfennau perthnasol eraill i gynnwys mwy o enghreifftiau ymarferol o bolisïau cronfeydd wrth gefn, a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r arweiniad ar-lein hwn gan y Comisiwn Elusennau; a
- chynnal mwy o ymchwil ymhen 18 mis, pan ddisgwylir gwelliannau mewn rheoli cronfeydd wrth gefn a datgelu polisïau;
- Bydd y Comisiwn Elusennau, ar y cyd â'r pwyllgor SORP a chyrff proffesiynol yn:
  - ystyried ymhellach statws cronfeydd dynodedig a'u cynnwys neu eu heithrio o'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn; ac yn
  - gweithio ar ddarparu arweiniad penodol ar effaith cynlluniau pensiwn budd-ion diffiniedig ar bolisïau cronfeydd wrth gefn.

Cronfeydd wrth Gefn a Ddelir gan elusennau yng Nghymru a Lloegr yn 2001:

	Elusennau Mawr Iawn[2]	**Elusennau Mawr**	**Elusennau Canolig**
Maint y sampl - elusennau a atebodd 'Nodwch gyfanswm y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan yr elusen' ar Ffurflen Flynyddol 2001	3305	4985	26772
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn	£18.7 bn	£3.8 bn	£3.9 bn
Cyfanswm gwariant	£19.4 bn	£2.3 bn	£1.6 bn
Swm cyfartalog a ddelir yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer yr elusennau hyn	£5.6 m	£760 mil	£146 mil
Gwariant cyfartalog	£5.9 m	£465 mil	£61 mil
Lefel uchaf elusennau (Ffurflen Flynyddol 2001)	£537 m	£31 m	£27 m
Nifer yr elusennau heb ddim cronfeydd wrth gefn (% o'r cyfanswm)	267 (8%)	412 (8%)	4387 (16%)
Cronfeydd wrth gefn cyfartalog: cymhareb gwariant	3.3: 1	2.9: 1	8.2: 1
Nifer yr elusennau sydd â chymhareb o lai na 1:1 (hy llai o gronfeydd wrth gefn na gwariant ar gyfer 2001)	22%	43%	64%

Am yr adroddiad

Paratowyd yr adroddiad ar gronfeydd wrth gefn elusennau trwy ddefnyddio tystiolaeth o gofnodion y Comisiwn Elusennau ac archwilio ein ffeiliau achos. Rydym hefyd wedi siarad gyda nifer fawr o elusennau ac wedi arolygu elusennau sydd â pholisi yn ei le ac elusennau heb bolisi. Er mwyn cael copi o'r adroddiad llawn Cronfeydd wrth Gefn Elusen (RS3) gellwch naill ai:

- Weld ac argraffu o adran gyhoeddi ein gwefan; neu
- alw staff ein Canolfan Cyswllt ar 0870 333 0123 (rhwng 8.30 y bore a 6.00 y nos ar ddyddiau'r wythnos) neu (ar adegau eraill) llinell archebu ffôn ateb ar 01823 345427 am gopi printiedig.

[2] Canolig: Incwm £10,000-£249,999, Mawr: Incwm £250,000-£999,999, Mawr Iawn: Incwm £1,000,000+

RS3a Cronfeydd wrth gefn elusennau

Canfyddiadau Allweddol

(Version 03/03)

Charity COMMISSION for England and Wales

Rhan bwysig o gynllunio a rheoli ariannol cadarn ar gyfer ymddiriedolwyr yw ystyried faint o arian y mae angen i'w helusen ei gadw wrth gefn, a sut mae ei gael. Mae hefyd yn fater allweddol bwysig i'r Comisiwn Elusennau fel y Rheoleiddiwr. Mae cronfeydd wrth gefn sy'n rhy fawr yn cadw arian yn ôl y gellid ac y dylid ei wario ar weithgarwch elusennol. Os yw'r cronfeydd yn rhy isel, mae'n bosibl y bydd dyfodol yr elusen mewn perygl.

Yn y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2001, roedd dros £26 billion yn cael ei ddal mewn cronfeydd wrth gefn gan elusennau cofrestredig.[1] Roedd £5.5 biliwn o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu dal gan elusennau nad oedd ganddynt bolisi cronfeydd wrth gefn ac roedd llawer o'r polisïau oedd yn eu lle yn annigonol ac o ansawdd gwael. Tra bo'r newid yn yr hinsawdd economaidd yn golygu y bydd gwerth y cronfeydd wrth gefn a ddyfynnwyd gan rai elusennau wedi disgyn ers hynny, mae'r egwyddor o ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn trylwyr, gyda chronfa wrth gefn sydd o'r maint iawn ar gyfer yr elusen ac yn eglur i'w budd-ddeiliaid yn dal i fod yn wir.

Mae sefyllfa pob elusen yn wahanol ac mae'n amhosibl gosod fformiwla ar gyfer maint cronfeydd wrth gefn a fydd yn addas i bob elusen ym mhob cam o'u datblygiad. Nid yw penderfynu faint o arian i'w gadw wrth gefn neu sut i adeiladu cronfa wrth gefn yn dasg hawdd i unrhyw sefydliad. Ond dylai rhoddwyr, buddiolwyr a'r Comisiwn Elusennau allu disgwyl y bydd gan elusennau bolisi cronfeydd wrth gefn sydd yn gadarn ac yn addas i'r pwrpas sy'n nodi atebolrwydd yn glir.

Canfyddiadau

Mae cronfeydd incwm y gellid eu gwario, ond sydd yn cael eu cadw'n ôl yn lle hynny, yn cael eu hadnabod fel cronfeydd wrth gefn, ac maent yn chwarae rôl arwyddocaol mewn cadw'r cydbwysedd rhwng anghenion buddiolwyr yr elusen yn y dyfodol ac ar hyn o bryd. Bydd y mwyafrif o elusennau yn ceisio adeiladu cronfa wrth gefn, ond mae symiau ac arferion penodol yn amrywio dipyn ac mae amrywiaeth eang, o elusennau nad oes ganddynt gronfeydd wrth gefn o gwbl i elusennau sy'n cadw symiau sylweddol wrth gefn. Roedd y £26 biliwn oedd yn cael ei ddal mewn cronfeydd wrth gefn rhwng yr holl elusennau yn 2001 tua'r un faint â chyfanswm eu holl incwm ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd 90% o'r cronfeydd wrth gefn a'r incwm hyn yn cael eu dal gan 10% o'r elusennau.

Nid oes unrhyw reol gyfreithiol benodol yn pennu pa swm neu gyfran o gronfeydd incwm elusen y gellir ei gadw wrth gefn. Mae meysydd gweithgarwch, ffynonellau nawdd, anghenion at y dyfodol, cyfleon, amodau economaidd, cynlluniau wrth gefn a'r risgiau wrth gefn yn ffactorau sy'n pennu pa swm y mae'n briodol i elusen ei gadw wrth gefn. Mae asesiad risg yn gam pwysig tuag at helpu elusen i nodi faint ddylai fod yn y gronfa wrth gefn.

Mae pennu polisi cronfa wrth gefn ac yn enwedig, pennu cronfeydd wrth gefn rhydd, yn helpu i lywio'r ffordd y mae elusen yn rheoli ei harian parod, ei hasedau hylifol a'i dyledion: ei dull o reoli'r trysorlys. Bydd polisi cronfeydd wrth gefn cynhwysfawr hefyd yn helpu ymddiriedolwyr wrth iddynt gynllunio ac egluro eu dull gweithredu i fudd-ddeiliaid. Mae'n ofyniad cyfreithiol ar ymddiriedolwyr y mae gan eu helusennau bolisi cronfeydd wrth gefn i gyhoeddi'r polisi hwnnw yn eu hadroddiad blynyddol.

Mae llawer o elusennau wedi meddwl yn ofalus iawn am faint y mae angen iddynt ei gadw wrth gefn er mwyn parhau i weithredu'n effeithiol, ac maent yn gweithredu polisïau cronfeydd wrth gefn eglur o safon dda. Er hynny, nid oedd polisïau rhai elusennau yn ein hastudiaeth yn cynnig digon o fanylion am eu dull o

[1] Data a dynnwyd o ffurflenni blynyddol elusennau i'r Comisiwn Elusennau am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2001.

adeiladu cronfa wrth gefn, neu sut yr oeddent yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn yn ymarferol. Er enghraifft, y cwbl yr oedd rhai elusennau'n ei wneud oedd copïo pwer i gronni cronfeydd o ddogfen lywodraethol yr elusen a'i alw'n bolisi cronfeydd wrth gefn.

Roedd gormod o elusennau nad oeddent wedi meddwl fawr ddim neu ddim o gwbl am reoli eu cronfeydd wrth gefn. Roedd bron i 70% o elusennau gydag incwm dros £10,000 heb bolisi cronfeydd wrth gefn ar yr adeg y cyflwynwyd eu ffurflen flynyddol ar gyfer 2001, er gwaethaf y ffaith bod gan lawer o'r elusennau hyn symiau sylweddol o arian nad oeddent yn eu gwario. Mae'r sefyllfa hon yn annerbyniol. Er hynny, ar yr ochr gadarnhaol, dywedodd llawer o elusennau wrthym eu bod yn y broses o ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn neu eu bod wedi sefydlu polisi o'r fath ers cyflwyno eu ffurflen flynyddol 2001, ac mae'r Comisiwn Elusennau yn disgwyl gweld y broses hon yn cyflymu.

Yn y mwyafrif o achosion, roedd elusennau wedi ymrwymo i sicrhau bod eu cronfeydd wrth gefn yn unol â'r lefel a gynlluniwyd, lle roedd gwahaniaethau'n bodoli. Nododd bron i un ym mhob tair elusen fod eu cronfeydd wrth gefn o dan y lefel a ddisgwylir gan eu polisi, ac mae'r elusennau hyn yn wynebu sialens arbennig wrth bontio'r agendor. Roedd nifer o elusennau yn hapus i gadw cronfeydd wrth gefn ac uwchlaw'r lefel a osodwyd gan eu polisi, ond nid yw adeiladu arian wrth gefn yn ddiderfyn fel hyn yn sefyllfa foddhaol.

Mae'r ffordd y dosberthir adnoddau elusen yn gronfeydd, a'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio'r cronfeydd gwahanol hyn, yn amrywio cryn dipyn ac mae hyn yn gallu ei gwneud yn anodd i fudd-ddeiliaid weld gwir lefel cronfeydd wrth gefn elusen. Mae nifer o ymddiriedolwyr yn gwneud defnydd amhriodol o gonfensiynau cyfrifo megis cronfeydd dynodedig fel y bydd lefel ei cronfeydd wrth gefn yn ymddangos yn uwch.

Mae rhai elusennau'n credu bod rhaid iddynt 'guddio' gwir lefel eu cronfeydd wrth gefn oherwydd gallai'r cronfeydd wrth gefn gael effaith andwyol ar allu'r elusen i geisio rhoddion neu grantiau. Ond, yn ein hastudiaeth, roedd y mwyafrif o elusennau yn gweld bod polisi cronfeydd wrth gefn cynhwysfawr a thryloyw yn help gwirioneddol iddynt osgoi problemau gyda rhoddwyr ac arianwyr. O'r holl elusennau gyda pholisi cronfeydd wrth gefn dim ond 6% oedd yn dweud nad oedd wedi bod o gymorth.

Er hynny, roedd rhai elusennau wedi wynebu problemau oherwydd bod pobl yn meddwl eu bod yn 'gyfoethog', ac un neges allweddol i ddarpar roddwyr a noddwyr yw edrych y tu hwnt i'r swm moel sydd gan elusen yn ei chronfeydd wrth gefn i ddeall pam mae'r elusen yn cadw'r arian yma wrth gefn.

Ers cyflwyno Ffurflen Flynyddol 2001, mae'r newid yn yr hinsawdd economaidd ac amodau'r farchnad stoc wedi lleihau arian wrth gefn rhai elusennau. Er hynny, mae negeseuon craidd yr adroddiad hwn heb newid ac mewn amseroedd ansicr, mae adeiladu cronfeydd wrth gefn a'u rheoli'n iawn yn fwy fyth o flaenoriaeth i elusennau.

Profiad y Comisiwn o waith achosion

Mae ein profiad o weithio gydag achosion yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn yn dangos bod elusennau'n mynd i drafferthion pan fydd ymddiriedolwyr a'r elusen:

- yn adeiladu cronfeydd heb bolisi neu heb ddealltwriaeth eglur o bwrpas yr arian;
- yn gweithredu gyda chronfeydd wrth gefn annigonol ac yna'n profi anawsterau ariannol;
- yn trin cronfeydd wrth gefn fel tasg 'ychwanegol' i'w chyflawni gan y rhai hynny sy'n paratoi'r cyfrifon yn hytrach nag fel elfen hanfodol o gynllunio strategol;
- a chanddynt bolisi cronfeydd wrth gefn ond nad ydynt yn egluro'r polisi hwn i'w budd-ddeiliaid;
- yn cadw arian wrth gefn a'i drin fel gwaddoliad pan fydd yr arian yn deillio o apêl incwm;
- yn disgrifio'r cronfeydd sydd gan yr elusen yn anghywir ac felly camliwio eu safle ariannol yn eu cyfrifon; neu
- yn ceisio cuddio cronfeydd wrth gefn rhag eu budd-ddeilaid.

Cronfeydd wrth gefn elusennau - *Canfyddiadau Allweddol*

Argymhellion

Argymhellion ar gyfer elusennau a'u hymddiriedolwyr

- Beth bynnag fo maint neu natur yr elusen, dylai fod gan ymddiriedolwyr bolisi cronfeydd wrth gefn addas sy'n egluro pa lefel neu ystod o gronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar yr elusen i weithredu'n effeithiol.
- Dylai ymddiriedolwyr sicrhau:
  - bod eu polisi cronfeydd wrth gefn yn addas ar gyfer nodau, anghenion ac amcanion yr elusen a'r risgiau a wynebir ganddi;
  - eu bod yn deall ac yn cytuno'n ffurfiol yr egwyddorion y tu ôl i bolisi cronfeydd wrth gefn eu helusen, ac yn pennu lefel cronfeydd wrth gefn briodol sydd yn seiliedig ar ffactorau sy'n effeithio ar yr elusen yn hytrach na ffigwr neu reol fympwyol;
  - bod polisi cronfeydd wrth gefn eu helusen yn mynd i'r afael â'r materion a godir yng nghyhoeddiad y Comisiwn Elusennau Cronfeydd wrth Gefn Elusennau (CC19);
  - bod eu polisi cronfeydd wrth gefn, eu polisi buddsoddiadau a'u fframwaith llywodraethu yn cael eu hadolygu o dro i dro i gymryd cyfrif o newidiadau yn yr amgylchedd y mae'r elusen yn gweithredu o'i fewn;
  - bod cynlluniau realistig yn eu lle i gadw cronfeydd wrth gefn yr elusen ar y lefel neu o fewn y rhychwant a osodir yn y polisi, ac i reoli effaith unrhyw newid; ac
  - eu bod yn ystyried yn ofalus y risgiau a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd lle bo cronfeydd wrth gefn yr elusen cryn dipyn yn is na'r lefel sydd ei hangen i redeg y sefydliad yn effeithiol.
- Rhaid i elusennau sydd â pholisi cronfeydd wrth gefn ei ddatgelu yn eu hadroddiad blynyddol.
- Ni ddylai ymddiriedolwyr
  - ddefnyddio cronfeydd cyfyngedig i ddarparu cronfeydd wrth gefn ar gyfer cronfeydd cyffredinol;
  - ceisio cuddio neu leihau maint ymddangosiadol cronfeydd wrth gefn yn eu cyfrifon; neu
  - gadw adnoddau a dderbyniwyd i'w gwario fel incwm, mewn, er enghraifft, cronfa ddynodedig neu mewn cronfa wrth gefn, gyda'r unig bwrpas o greu incwm yn y dyfodol.
- Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod gofynion cyfrifo ac adrodd elusennau (SORP) yn cael eu defnyddio'n gyson wrth gyflwyno cronfeydd wrth gefn yn eu cyfrifon blynyddol; a dylent allu rhoi, ar gais, eglurhad o'r ffordd y dosbarthwyd ac y rhannwyd eu cronfeydd arian rhwng cronfeydd wrth gefn a chronfeydd dynodedig.
- Wrth wneud apeliadau, dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn egluro i ba ddiben y maent yn bwriadu defnyddio'r cronfeydd. Os ydynt yn bwriadu defnyddio'r arian fel cronfeydd wrth gefn, dylent nodi hyn yn yr apêl.

Argymhellion ar gyfer cyrff sy'n rhoi grantiau

- Dylai rhoddwyr grantiau:
  - gyhoeddi eu polisïau ar roi grantiau a'u polisi tuag at gronfeydd wrth gefn y sawl sy'n gwneud cais;
  - ceisio datblygu gweithdrefnau asesu ceisiadau grant a fydd yn caniatáu i elusennau egluro (lle bo hynny'n berthnasol) eu polisi cronfeydd wrth gefn a'r rhesymau dros eu lefel cronfeydd wrth gefn a
  - chymryd polisi a lefel cronfeydd wrth gefn elusen i ystyriaeth wrth benderfynu dyfarniadau grant.

Argymhellion i roddwyr

- Er mwyn gwneud elusen yn fwy effeithiol, dylid annog rhoddwyr i roi rhoddion cyffredinol. Lle hoffai rhoddwyr i'r rhodd gael ei defnyddio i bwrpas arbennig, er enghraifft a ddylid ei thrin fel incwm neu i greu gwaddoliad gwariadwy, dylent roi cyfarwyddiadau eglur fel y gall yr elusen ddosbarthu'r arian i'r gronfa gywir.

Camau Gweithredu'r Comisiwn Elusennau

- Bydd y Comisiwn Elusennau:

Gwefan: www.charitycommission.gov.uk